

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road  
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ  
Ffôn / Tel: 029 20 320500  
Ebst / Email: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Mr Darren Millar AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 24 Ebrill 2015  
Ein cyf: HVT/2316/fgb  
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Darren

## TIR A GAFFAELWYD GAN LYWODRAETH CYMRU – Ffordd Liniaru'r M4

Ar 21 Ebrill, nododd y Pwyllgor fy llythyr dyddiedig 26 Mawrth yn ymwneud â thir a gaffaelwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cynigion ar gyfer Ffordd Liniaru'r M4. Yn ogystal â'r manylion yn y llythyr hwnnw, gofynnwyd imi gadarnhau'r dyddiad y gwerthwyd saith o'r 22 eiddo a gaffaelwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r dyddiadau dan sylw:

Tir The Stud Farm	26 Mawrth 2004
Lower Lakes Farm, Trefonnen	5 Ionawr 1997
Pye Corner House, Trefonnen	16 Ionawr 2002
Ysgubor Newydd, Coedcernyw	31 Ionawr 2004
Moorbarn House, Trefonnen	2 Gorffennaf 1997
The Maerdy, Coedcernyhw	4 Tachwedd 2003
Rose Cottage, Gwndy	1 Gorffennaf 2011

Gofynnwyd imi hefyd gadarnhau pa lwybr fydd yn effeithio ar ba rai o'r 22 eiddo. Wrth ymchwilio i'r mater hwn, rwyf wedi cyfeirio at y llwybrau du, coch a phorffor a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru yn fwy diweddar a'r llwybr a oedd yn cael ffafrio'n wreiddiol yn 1995, ac a arweiniodd at y penderfyniad i gaffael y 22 eiddo o ganlyniad i reolau malltod statudol.

Gofynnodd staff Swyddfa Archwilio Cymru i swyddogion Llywodraeth Cymru i ba raddau y gallai'r gwahanol lwybrau posibl effeithio ar y 22 eiddo a restrwyd yn fy llythyr blaenorol. Wrth ymateb, cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru y gellir dweud y gallai unrhyw un o'r tri llwybr a oedd yn cael eu hystyried yn ddiweddar effeithio ar bob un o'r 22 eiddo. Pwysleisiodd y swyddogion na fyddai'r llwybrau'n effeithio'n ffisegol, o reidrwydd, ar nifer ohonynt, ond roeddent yn sefyll yng nghyffiniau'r gwahanol lwybrau posibl.

Mae'r manylion ar y mapiau a anfonodd Llywodraeth Cymru at staff Swyddfa Archwilio Cymru yn amrywio. Maent yn cynnwys map manwl yn dangos pob un o'r 22 eiddo o'u cymharu â'r llwybr 'du' presennol. Mae gennym hefyd fap manwl yn dangos llwybr 1995 ond nid yw hwnnw'n dangos y 22 eiddo, ac mae gennym fap llawer llai manwl o'r llwybrau du, coch a phorffor presennol ond, unwaith eto, nid yw'n dangos y 22 eiddo.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych eto ar y mapiau hyn. Ymddengys eu bod yn cadarnhau sylwadau swyddogion Llywodraeth Cymru a bod y pwyntiau lle mae'r gwahanol lwybrau'n amlwg yn newid cyfeiriad, gan gynnwys llwybr 1995, mewn lleoliadau gwahanol i'r 22 eiddo a restrwyd. Mae croeso ichi weld y mapiau y mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u harchwilio.

I gloi, yn fy llythyr blaenorol, dywedais nad oeddwn yn gwybod pryd y cafodd y tir i'r de o hen safle Llywodraeth Cymru ei gaffael. Gallaf yn awr gadarnhau fy mod yn deall bod y tir wedi'i gaffael ar 30 Medi 2004, yr un pryd ag y cafodd hen safle Llywodraeth Cymru ei gaffael.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**  
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**